Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd
# Llanrhystud
# Aberystwyth
# Ceredigion
# SY23 5AT

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2018

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Wirfoddol Myfenydd

Lleolir Ysgol Gynradd Myfenydd ym mhentref Llanrhystud, yn awdurdod lleol Ceredigion. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol ac fe gyflwynir Saesneg yng nghyfnod allweddol 2.

Mae 81 o ddisgyblion rhwng 4 ac 11 oed ar y gofrestr. Tua 32% o'r disgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gartrefi lleiafrifol ethnig. Tua 6% o'r disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na'r ganran genedlaethol. Mae'r ysgol wedi adnabod tua 26% o ddisgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym 1995 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Hydref, 2010.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Crynodeb

Mae’r ysgol yn gymuned ofalgar a chynhwysol sy’n annog ei disgyblion i ddatblygu lefel uchel o barch a goddefgarwch at eraill. Mae’r disgyblion yn ymddwyn yn dda ac mae ganddynt agweddau cadarnhaol at ddysgu. Yn ystod eu hamser yn yr ysgol, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da. Mae athrawon yn darparu gweithgareddau ysgogol iddynt, sy’n datblygu eu medrau yn effeithiol. Un o gryfderau’r ysgol yw ansawdd y ddarpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae’r pennaeth yn darparu arweinyddiaeth bwrpasol sy’n rhoi cyfeiriad strategol clir i’r ysgol. Mae’r staff yn ymroddedig a brwdfrydig ac yn cydweithio’n agos a chynhaliol fel tîm mewn amgylchedd Cymreig.

| **Maes arolygu** | **Barn** |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Da** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Argymhellion

A1 Gwella safonau ysgrifennu estynedig disgyblion yn y ddwy iaith, lle’n briodol

A2 Sicrhau bod yr addysgu yn darparu cyfleoedd effeithiol i’r holl ddisgyblion weithio’n annibynnol a chyflawni hyd eithaf eu gallu

A3 Sicrhau bod yr ysgol yn mynd i’r afael â’r mater diogelu sy’n ymwneud â rhan benodol o’r safle

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i’r afael â’r argymhellion o’r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

**Safonau: Da**

Mae medrau sylfaenol mwyafrif y disgyblion mewn iaith a datblygiad mathemategol wrth iddynt gychwyn yn yr ysgol yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, gan gynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw disgyblion mwy galluog bob amser yn cyflawni hyd eithaf eu gallu.

Yn y cyfnod sylfaen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu gallu i gyfathrebu ar lafar yn y Gymraeg. Maent yn defnyddio ystod o eirfa briodol wrth sgwrsio gyda chyfoedion ac oedolion. Mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus yn eu gweithgareddau ffurfiol ac ar adegau eraill yn ystod y dydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n dda yn ystod y gwersi ac yn cyfrannu'n bwrpasol yn y ddwy iaith mewn trafodaethau dosbarth a grŵp.

Yn y cyfnod sylfaen, mae medrau darllen rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n dda. Mae'r disgyblion ieuengaf yn adnabod llythrennau a seiniau yn gywir ac yn dechrau adeiladu geiriau'n effeithiol. Mae gan ran fwyaf ohonynt ddiddordeb mewn llyfrau ac maent yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer yn darllen ystod eang o lyfrau yn y ddwy iaith gyda rhuglder. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn darllen awduron fel JK Rowling yn y Gymraeg a'r Saesneg. Maent yn deall nodweddion llyfrau yn dda ac yn gallu nodi eu hoff lyfrau ac awduron yn glir. Gallant gywain gwybodaeth am bynciau penodol o fwy nag un ffynhonnell yn llwyddiannus, fel dod o hyd i ychydig o hanes Iwerddon.

Mae llawer o ddisgyblion yn y cyfnod sylfaen yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn barhaus yn y Gymraeg. Defnyddiant eirfa ac ymadroddion yn gynyddol gywir. Maent yn amrywio brawddegau ac atalnodi yn hyderus wrth ysgrifennu ffurfiau amrywiol. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn cyflwyno'u syniadau a'u gwybodaeth yn effeithiol ac yn dangos gafael sicr ar batrymau sillafu, paragraffu ac atalnodi yn y ddwy iaith. Mae safonau llawysgrifen a chyflwyniad gwaith llawer ar draws yr ysgol yn daclus. Fodd bynnag, mae gorddefnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar allu llawer o ddisgyblion i ysgrifennu'n estynedig ac annibynnol ar draws yr ysgol, yn arbennig yn y llyfrau thema.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau rhifedd. Yn y cyfnod sylfaen, gall y rhan fwyaf ddarllen, deall ac ysgrifennu rhifau yn gywir hyd at 100 a'r mwyaf abl at 1000. Mae llawer yn adnabod priodweddau siapiau 3D yn llwyddiannus ac maent yn datblygu dealltwriaeth dda o fesur, arian, amser a thrin data. Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob disgybl yn hyderus wrth ddefnyddio strategaethau adio, tynnu, rhannu a lluosi i ddatrys problemau. Maent yn mesur siapiau yn ddeallus i gyfrifo arwynebedd ac mae'r rhan fwyaf yn mesur onglau yn gywir. Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf y disgyblion yn cymhwyso'u medrau'n gadarn ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, yn y cyfnod Sylfaen, maent yn amcangyfrif a mesur rhannau o'r corff a chreu tabl i bwyso cerrig mewn arbrawf ac yn dangos hyn yn effeithiol mewn graff bar.

Mae llawer o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn defnyddio technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) yn hyderus at wahanol ddibenion.  Yn y cyfnod sylfaen, mae llawer yn medru defnyddio rhaglen yn llwyddiannus i reoli tegan o gwmpas grid a defnyddio codau 'QR' yn ddeallus i ddod o hyd i wybodaeth.  Yng nghyfnod allweddol 2, mae bron pob un disgybl yn defnyddio Hwb yn effeithiol ac yn deall sut i gyrraedd gwahanol raglenni o fewn eu cyfrineiriau.  Mae'r disgyblion hŷn yn ymchwilio'n briodol ar y we, er enghraifft wrth ymchwilio i wybodaeth am Hedd Wyn.  Mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus, er enghraifft wrth gydweithio ag ysgol arall i astudio bywyd ym Motswana.  Fodd bynnag, lleiafrif o ddisgyblion sy'n defnyddio taenlenni yn effeithiol.  Mae llawer o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau TGCh yn bwrpasol mewn meysydd ar draws y cwricwlwm.

**Lles ac agweddau at ddysgu:  Da**

Mae'r disgyblion yn ymfalchïo'n llwyr yn yr ystod o gyfleoedd gwerthfawr sydd ganddynt i chwarae rhan yng nghymuned yr ysgol.  Mae hon yn un o gryfderau'r ysgol.  Mae pob un disgybl yng nghyfnod allweddol 2 yn falch i fod yn aelod o bwyllgor.  Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u rolau arwain ac maent yn cymryd eu cyfrifoldeb i feddwl am anghenion eraill o ddifrif.  Mae aelodau'r cynghorau ysgol yn frwdfrydig ac yn trefnu gweithgareddau rheolaidd i godi arian ar gyfer nifer o elusennau.  Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol yn effeithiol ac yn codi eu hymwybyddiaeth nhw a'u cyfoedion o bobl sy'n llai ffodus na nhw.  Mae enghreifftiau o effaith y cynghorau ysgol yn cynnwys adnewyddu'r llinellau ar y buarth a chodi ymwybyddiaeth disgyblion o hawliau plentyn y Cenhedloedd Unedig ymysg disgyblion hŷn yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn hapus iawn yn yr ysgol, ac yn tystio eu bod yn cael gofal a chymorth da yno.  Maent yn hyderus bod staff yn ymdrin yn dda ag unrhyw bryderon sydd ganddynt ac yn gweithredu arnynt yn gyflym a theg.  Yn yr un modd, mae'r disgyblion yn ofalgar o'i gilydd.  Maent yn gofalu am ddisgyblion newydd pan fyddan nhw'n ymuno â'r ysgol am y tro cyntaf.  Maent hefyd yn defnyddio'r 'Hafan Hapus', sy'n fan hyfryd ar yr iard, i sicrhau bod disgyblion sy'n teimlo'n unig yn cwrdd â ffrind i chwarae.  O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ofalgar hon.

Mae bron pob disgybl yn ymddwyn yn dda iawn mewn gwersi ac o gwmpas yr ysgol.  Maent yn gwrtais iawn tuag at ei gilydd ac yn adlewyrchu ymddygiadau cadarnhaol sy'n cael eu modelu'n dda iddynt gan staff.   Mae gan ddisgyblion lefelau uchel o ymddiriedaeth yn y staff a gwyddant eu bod yn gwneud eu gorau drostynt bob amser.  Mae hyn yn cyfrannu'n dda at hunanhyder disgyblion ac yn eu helpu i ddod yn ddysgwyr hyderus a llwyddiannus.

Mae bron pob un disgybl yn ymroi'n bwrpasol i'w dysgu ac yn canolbwyntio'n dda mewn gwersi.  Mae bron pob un yn frwdfrydig ac yn awyddus i ddysgu.  Maent yn cydweithio'n effeithiol â'i gilydd yn eu gwersi ac mewn gweithgareddau eraill.  Maent yn cymryd cyfrifoldeb cynyddol mewn gweithgareddau asesu, ac yn cytuno ar eu meini prawf llwyddo a'u targedau personol yn gyson.  Mae hyn yn eu helpu i gael gwell dealltwriaeth o'u cryfderau a'u gwendidau.  Er bod mwyafrif y disgyblion yn gweithio'n lled annibynnol, mae'r lleiafrif, ar adegau, yn or-ddibynnol ar arweiniad staff.

Mae bron pob un disgybl yn deall pwysigrwydd yfed a bwyta'n iach ac effaith ymarfer corff cyson ar eu hiechyd. Mae llawer ohonynt yn ymuno â'r clwb chwaraeon wythnosol a'r clwb chwaraeon amser egwyl. Mae'r pwyllgor ysgolion iach yn monitro cynnwys bocsys bwyd disgyblion eraill yn rheolaidd, i weld os yw'r bwyd yn iach, ac yn eu cynghori pan fo angen. Mae'r llysgenhadon efydd yn darparu sesiynau gwerthfawr 'ffit mewn pump' yn wythnosol i ddisgyblion eraill yn yr ysgol. Mae hyn eto yn atgyfnerthu'r pwyslais ar ffitrwydd yn llwyddiannus.

**Addysgu a phrofiadau dysgu: Da**

Mae'r addysgu yn dda yn yr ysgol. Mae gan yr athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn paratoi, trefnu a strwythuro'u gwersi'n effeithiol. Maent yn cysylltu eu gwersi'n glir â dysgu blaenorol ac yn defnyddio ystod o strategaethau priodol yn fedrus. Mae hyn yn sicrhau bod y disgyblion yn canolbwyntio'n dda ac yn dyfalbarhau â'u tasgau. Mae pob un o'r staff yn datblygu perthnasoedd gweithio cadarnhaol a chefnogol iawn gyda disgyblion sy'n llwyddo i ddatblygu eu hunanhyder yn effeithiol. Er hyn, ar adegau, mae tueddiad gan rai athrawon i or-arwain y disgyblion, gan gyfyngu ar eu dysgu annibynnol. Mae'r athrawon yn holi'n fedrus i ymestyn dealltwriaeth disgyblion a datblygu eu medrau meddwl. Trwy fod yn fodelau ieithyddol da, maent yn annog y disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn gyson yn ystod y dydd, gan bwysleisio cywirdeb, rhugldер a thafodiaith gyfoethog yr ardal. O ganlyniad, mae'r Gymraeg i'w chlywed yn naturiol gan y disgyblion a'r staff o gwmpas yr ysgol. Mae cyfraniad staff cynorthwyol at ansawdd dysgu'r disgyblion yn sylweddol.

Mae'r athrawon yn cynllunio'n effeithiol i ddatblygu cwricwlwm sy'n seiliedig ar Gymru a'r etifeddiaeth Gymreig. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ddealltwriaeth y disgyblion o'u hardal leol, eu hanes a'u diwylliant. Er enghraifft, maent yn ymweld â melin flawd leol a'r Llyfrgell Genedlaethol ac yn cael cyfleoedd pwrpasol i astudio hanes a llyfrau T Llew Jones. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau ysgogol i annog disgyblion i ddefnyddio'u medrau creadigol ar draws yr holl feysydd dysgu. Er enghraifft, maent wedi creu fideo o ddrama sy'n trafod bywyd plentyn yn Oes Fictoria.

Mae'r ysgol yn ymateb yn gadarn i ofynion y Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd. Mae'n darparu profiadau dysgu eang i'r disgyblion ddefnyddio eu medrau llythrennedd, rhifedd, meddwl a ThGCh ar draws y cwricwlwm. Er enghraifft, mae'r ysgol yn dysgu trwy themâu ac yn sicrhau bod y medrau'n cael eu hadeiladu arnynt yn drefnus o un cyfnod i'r llall. Fodd bynnag, ar adegau, mae'r defnydd o daflenni gwaith yn cyfyngu ar fedrau ysgrifennu estynedig ychydig o ddisgyblion.

Mae athrawon yn rhoi adborth effeithiol i ddisgyblion. Maent yn gwneud hyn mewn modd adeiladol sy'n magu hunanhyder y disgyblion yn llwyddiannus. Mae gweithdrefnau priodol yn eu lle i ddarparu cyfleoedd i'r disgyblion arfarnu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Er enghraifft, mae'r disgyblion hŷn yn defnyddio'r bwrdd rhyngweithiol yn hyderus i arfarnu gwaith ysgrifenedig disgyblion eraill yn y dosbarthiadau. Mae hyn yn eu helpu i ganolbwyntio at yr hyn sy'n bwysig iddynt ei gyflawni mewn tasgau, er mwyn llwyddo.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae'r ysgol yn hyrwyddo pwysigrwydd ymddygiad da, parch ac ymroddiad yn llwyddiannus i'r disgyblion. O ganlyniad, maent yn ymddwyn yn dda ac yn ymroi yn gydwybodol i'w gweithgareddau. O ganlyniad, mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Mae gwasanaethau boreol ac ymweliadau gan arweinwyr crefyddol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol a moesol disgyblion yn effeithiol ac mae'r cyfleoedd iddynt ymweld â'r gymuned a chynorthwyo yn eu hardal leol yn cyfoethogi hyn ymhellach. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd cyson i gystadlu mewn eisteddfodau lleol ac i berfformio mewn cyngherddau yn ystod y flwyddyn. Mae hyn yn datblygu eu medrau creadigol yn effeithiol, ac yn codi eu hunanhyder yn llwyddiannus. Yn ogystal, trefnir ymweliadau preswyl iddynt i Langrannog, Pentywyn a Chaerdydd i sicrhau bod eu medrau personol, a chymdeithasol hefyd yn datblygu'n effeithiol. Mae gan yr ysgol weithdrefnau llwyddiannus i addysgu disgyblion am ddiwylliant Cymru a'i gymharu â diwylliant pobl mewn gwledydd fel Botswana. Mae hyn yn eu cynorthwyo i ddeall am faterion crefyddol, moesol a diwylliannol Cymru a'r byd ehangach.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau effeithiol i olrhain cynnydd a monitro lles disgyblion. Mae'r staff yn defnyddio'r wybodaeth sy'n deillio o hyn yn effeithiol i adnabod yr angen am gefnogaeth yn gynnar, i gynllunio'r camau nesaf ar gyfer disgyblion ac i ddarparu ymyraethau priodol ar gyfer y rheini sydd angen cymorth ychwanegol. Mae'r ystod eang o ymyraethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gryfder yn yr ysgol. Mae gan y disgyblion gynlluniau addysg a thargedau unigol sy'n cael eu llunio mewn trafodaeth gyda'r athrawon ac mewn ymgynghoriad â'r rhieni. Mae'r cynlluniau unigol yn bwrpasol a chaiff cynnydd y disgyblion ei fonitro'n ofalus. Mae'r cymorthyddion dysgu yn chwarae rhan allweddol yn y broses o gefnogi'r disgyblion hyn. O ganlyniad, mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da yn erbyn eu targedau.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo arferion cadw'n iach yn llwyddiannus. Mae ganddi drefniadau priodol ar gyfer bwyta ac yfed yn iach, sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddealltwriaeth y disgyblion o faterion sy'n ymwneud â'u hiechyd a'u lles.

Er bod trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion ar y cyfan yn bodloni gofynion, mae mân bryderon ynghylch rhan benodol o'r safle.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a disgwyliadau uchel ar gyfer yr ysgol. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth hon yn glir i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Mae ei harweinyddiaeth bwrpasol yn sicrhau bod pob agwedd ar fywyd yr ysgol yn cael dylanwad cadarnhaol ar safonau a lles disgyblion. Mae aelodau'r staff yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau yn dda ac yn cydweithio'n effeithiol fel tîm. Mae'r ysgol yn gymuned drefnus ac mae ganddi strwythurau a pholisïau clir. Mae'r arweinwyr yn arwain trwy esiampl ac yn modelu'r ymddygiad maent yn ei ddisgwyl gan staff a disgyblion fel ei gilydd.

Mae'r pennaeth yn sicrhau bod cyfarfodydd staff yn cael eu cynnal yn rheolaidd ac yn canolbwyntio'n glir ar flaenoriaethau'r ysgol ac ar wella cyflawniad disgyblion. Mae aelodau'r corff llywodraethol yn cyflawni eu cyfrifoldebau yn drylwyr ac yn ymateb yn gydwybodol i'w rôl strategol. Mae gan y llywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'r ysgol, ei chryfderau a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella. Mae'r pennaeth yn hysbysu llywodraethwyr yn dda am safonau'r disgyblion ac mae hyn yn galluogi llywodraethwyr i ddwyn yr ysgol i gyfrif yn llwyddiannus.

Mae diwylliant o hunanarfarnu wedi gwreiddio'n ddwfn ym mywyd yr ysgol. Mae'r adroddiad hunanarfarnu yn fanwl ac mae'r pennaeth a'r athrawon yn ymgymryd ag amrywiaeth eang o weithgareddau monitro i'w cynorthwyo i ffocysu'n gywir ar gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella. Maent yn dadansoddi data yn drylwyr, yn arfarnu gwaith disgyblion ac arsylwi gwersi yn effeithiol. Mae'r ysgol yn gwrando'n ofalus ar farn rhieni a disgyblion gan sicrhau bod ganddynt lais clir o ran gwella'r ddarpariaeth, cyn ymateb i'w syniadau lle'n briodol. Er enghraifft, mae arweinwyr yn canfod barn rhieni yn llwyddiannus drwy rannu holiaduron.

Mae'r ysgol yn defnyddio canfyddiadau'r broses hunanarfarnu yn llwyddiannus i nodi blaenoriaethau ar gyfer y cynllun datblygu a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyflawniadau'r disgyblion. Mae'r cynllun, er braidd yn faith, yn cynnwys targedau gwelliant pwrpasol a blaenoriaethau clir. Mae'r camau gweithredu yn glir a'r meini prawf llwyddiant yn ddigon meintiol i alluogi'r staff i fesur llwyddiant yn effeithiol. Gweithia'r pennaeth yn agos â'r llywodraethwyr a'r staff i weithredu'r cynllun a monitro'r cynnydd.

Mae'r pennaeth, y staff a'r llywodraethwyr yn rheoli adnoddau'r ysgol yn effeithiol i gefnogi disgyblion a sicrhau gwelliannau. Mae ystod o weithgareddau dysgu proffesiynol yn cysylltu'n dda ag anghenion datblygu staff a blaenoriaethau'r ysgol. Mae'r athrawon yn cydweithio'n agos iawn i rannu syniadau a dysgu oddi wrth ei gilydd ac maent yn dysgu o'r arfer dda mewn ysgolion eraill. Er enghraifft, mae'r staff yn craffu ar lyfrau gwaith disgyblion ar y cyd â staff tair ysgol arall yn yr ardal sy'n eu galluogi i rannu syniadau tra'n sicrhau cysondeb mewn asesiadau.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol a gwna ddefnydd effeithiol o fedrau unigolion i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu. Er enghraifft, defnyddir arbenigedd staff yn dda i addysgu pynciau fel gwyddoniaeth a chelf. Mae'r arweinwyr yn rheoli'r gyllideb yn ofalus ac yn sicrhau bod y gwariant yn cysylltu'n dda â'r cynlluniau ar gyfer gwelliant. Mae gan yr ysgol gynllun addas ar gyfer defnyddio'r grant datblygiad disgyblion, sy'n nodi cefnogaeth bwrpasol ar gyfer disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol yn monitro effeithiolrwydd y ddarpariaeth ar ddeilliannau disgyblion yn llwyddiannus. O ganlyniad, mae'r disgyblion hyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol ac angen gwelliant** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol ac angen gwelliant ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2018: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 26/03/2018